Canolfan Addysg Y Bont
Ffordd Cildwrn
Llangefni
Ynys Mon
LL77 7PG

21/10/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Medi 2025

Diolch am eich cefnogaeth i drefnu ein hymweliad interim â'r ysgol. Fe wnaethom fwynhau'r cyfle i gwrdd â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ganolfan wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- Siarad ag uwch arweinwyr am eich gwaith gwella a sut rydych chi'n cefnogi athrawon.
- Ystyried dogfennaeth
- Cyfathrebu â disgyblion yn y gwersi a chlywed eu hadborth am y ganolfan
- Cynnal teithiau dysgu ar draws yr ysgol i weld disgyblion a staff yn ymgymryd â'u gwaith.
- Siarad gyda chriw o athrawon am eu gwaith yn datblygu'r ardaloedd allanol ac adnoddau arbenigol ac am wella eu hymarfer

## Ffocws yr ymweliad

### Pa mor effeithiol y mae'r gweithdrefnau hunanwerthuso yn mesur effaith y gweithredoedd ar safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu?

Mae'n ymddangos fod y ganolfan wedi dechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn fuan yn dilyn yr arolygiad yn 2023. Ar ôl cyfnod o ymchwilio dwys a chyd-gynllunio gydag arbenigwyr allanol, mae arweinwyr wedi rhoi cwricwlwm a methodoleg addysgu newydd ar waith ar draws yr ysgol. Ymddengys fod trefniadau buddiol i hyfforddi a chefnogi staff i ddatblygu'n broffesiynol wedi arwain at gysondeb yn ansawdd cynllunio profiadau dysgu

ac asesu dros amser ynghyd â chysondeb mewn prosesau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant. Roedd yn braf clywed am ddatblygiadau pellach lle mae athrawon a staff cymorth yn ymchwilio i feysydd penodol o addysgeg er mwyn eu cynorthwyo i ddatblygu eu medrau a'u hymarfer eu hunain. Mae cynnwys yr elfen hon trwy'r broses rheoli perfformiad yn sicr yn cyfrannu at daith wella y ganolfan.

Roedd yn gadarnhaol clywed sut mae uwch arweinwyr wedi cynyddu cyfleoedd i staff gyd-drafod eu gwaith, gan gynnwys sesiynau gwerthfawr i drafod addysgeg, cynllunio profiadau dysgu ac i rannu arferion da. Gwelwyd fod cyfleoedd cyson i athrawon arfarnu eu gwaith eu hunain er mwyn cyfrannu at brosesau hunanarfarnu ysgol gyfan. Enghraifft dda o hyn yw'r holiadur hunanarfarnu cynhwysfawr a roddir i athrawon er mwyn eu hannog i fyfyrio ar eu hymarfer ac i ystyried effaith eu darpariaeth ar gynnydd eu disgyblion.

Mae trefniadau sicrhau ansawdd ysgol gyfan yn ymddangos yn gryf. Trefnir ystod eang o weithgareddau buddiol i fonitro gwaith staff. Mae'r rhain yn cynnwys:

- teithiau dysgu cyson
- arsylwadau gwersi neu weithgareddau
- craffu ar ffeiliau tystiolaeth ac asesu athrawon
- llunio adroddiadau crynodol a chynhwysfawr o ganfyddiadau yn dilyn gweithgareddau 'craffu manwl' disgyblion unigol
- dadansoddiadau data ar ddiwedd cylchoedd asesu canolfan gyfan

Ymddengys fod arweinwyr a staff yn parhau i gydweithio'n llwyddiannus gydag arbenigwyr allanol i ddilysu eu barnau a'u gwerthusiadau. Mae gwerthusiadau yn dilyn arsylwadau unigol neu gyfres o deithiau dysgu yn rhoi ffocws briodol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys priodoldeb y profiadau dysgu, ansawdd a defnyddioldeb cynlluniau dysgu unigol a defnydd o asesu. Gan amlaf, mae'r gwerthusiadau yn cynnwys ychydig sylwadau addas ar effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd y disgyblion. Serch hyn, mae'r rhain yn dueddol o fod yn rhy gyffredinol neu'n ffocysu ar safonau lles disgyblion yn unig. Drwyddi draw, nid oes digon o fanylder am gynnydd disgyblion unigol yn eu medrau cyfathrebu neu eu datblygiad gwybyddol. Byddai'n fuddiol i'r ganolfan ystyried cryfhau ymhellach sut y bernir ansawdd y ddarpariaeth yn ôl ei heffaith, yn benodol i ba raddau mae'r cynllunio a'r profiadau dysgu yn sicrhau fod disgyblion yn gwneud cynnydd mewn sesiynau a thros amser.

Mae'r cynllun gwella yn cynnwys saith prif flaenoriaeth. Mae'r gweithredoedd yn addas a chan amlaf, mae'r trefniadau monitro yn bwrpasol. Serch hynny, nid yw'r effaith ddymunol ar safonau a'r ddarpariaeth yn eglur. Mewn rhai achosion mae'r un person yn arwain ac yn gwerthuso, ac mae dyddiadau yn aneglur neu'n rhy gyffredinol. Nid yw'n glir sut mae arweinwyr yn rhannu eu canfyddiadau a'u gwerthusiadau o weithredoedd gyda

rhanddeiliaid mewn modd amserol ac ystyrlon. Byddai'n fuddiol darparu diweddariadau cryno o gryfderau a meysydd gwella dros dro wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

### I ba raddau mae'r ysgol wedi ehangu'r profiadau dysgu ymhellach drwy wneud defnydd pwrpasol o'r adnoddau allanol ac arbenigol?

Mae Canolfan Addysg y Bont yn ganolfan gynhwysol sy'n parhau i ddarparu addysg sy'n cefnogi anghenion ei disgyblion yn effeithiol. Mae arweinwyr a staff yn adnabod eu disgyblion yn dda. Maen nhw'n defnyddio'r wybodaeth yma i gynllunio cwricwlwm diddorol a phwrpasol sy'n rhoi sylw bwriadus i holl ystod o anghenion y dysgwyr gyda ffocws benodol ar y llwybr dysgu gorau ar gyfer diwallu anghenion yr unigolion.

Ers yr arolygiad craidd mae arweinwyr wedi ehangu a datblygu'r ardaloedd allanol ac adnoddau arbenigol ar draws y ganolfan. Yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn yn cynnwys datblygu'r gofod dysgu y tu allan i ddosbarthiadau i greu ardaloedd dysgu, chwarae ac ymlacio pwrpasol. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion yn cael gwell dewis wrth arwain eu dysgu a'u hannibyniaeth. Mae hyn wedi arwain at ymgysylltiad effeithiol gan ddisgyblion a lefelau lles cadarnhaol. Er bod cynlluniau i ddatblygu rhai ardaloedd arbenigol ymhellach, y cam nesaf yw sicrhau fod yr ardaloedd hyn yn ateb gofynion disgyblion yn llawn.

Erbyn hyn mae llwybrau newydd hygyrch yn arwain disgyblion i holl ardaloedd dysgu awyr agored y ganolfan gan gynnwys yr ardal arddwriaeth a'r ardd synhwyraidd. Mae disgyblion iau yn datblygu ystod o fedrau pwysig o fewn profiadau dysgu cyffrous yn yr awyr agored o dan y canopïau lliwgar, newydd. Er enghraifft mae disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn bwrpasol wrth bwyso ffrwythau a chyfri mes. Mae disgyblion yn gweud cynnydd cadarn yn eu medrau creadigol trwy baratoi toes mwyar duon ac arbrofi gyda siapau gwahanol yn yr awyr agored. Mae disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol gwerthfawr wrth chwarae a dysgu yn yr awyr agored gyda'u cyfoedion yn y Cwt Cwtch a Hafan Hilda. Maent hefyd yn datblygu eu medrau corfforol a hunan reoleiddio yn effeithiol wrth ddefnyddio adnoddau newydd fel y gampfa tu allan, y siglenni a'r chwyrligwgan arbenigol.

Mae arweinwyr wedi buddsoddi mewn adnoddau arbenigol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau technegol sy'n galluogi disgyblion i anelu eu llygaid at sgrin i gyfathrebu eu gofynion. Er enghraifft o fewn sesiynau cerddoriaeth gall y disgyblion hynny ddewis offerynnau cerddorol o'r sgrin i fwynhau cyd chwarae offerynnau gyda'u cyfoedion.

Ar draws y ganolfan, mae'n ymddangos fod profiadau wedi'u cynllunio'n ofalus ac yn gyson i ddiwallu anghenion synhwyraidd y disgyblion. Mae dwy ystafell newydd synhwyraidd yn cyfoethogi'r ddarpariaeth honno'n effeithiol ac yn galluogi disgyblion i archwilio a dysgu'n ddiogel.

O ganlyniad i'r gwelliannau yn yr ardaloedd allanol a'r adnoddau arbenigol mae lles disgyblion yn gwella ac maent yn dangos mwy o annibyniaeth a hyder, gan ddatrys problemau drostynt eu hunain.

Ymddengys fod arweinwyr wedi sicrhau ffocws clir ar ddatblygiad proffesiynol staff o ran hyrwyddo a chysoni arferion addysgu yn yr awyr agored. Mae hyn wedi arwain at gysondeb mewn arferion addysgu effeithiol sy'n cefnogi cynnydd a lles disgyblion.

Mae'n braf clywed bod arweinwyr wedi gwrando ar lais a chyfraniad y cyngor ysgol wrth ddatblygu'r ardaloedd allanol a gwella'r adnoddau arbenigol. Er enghraifft, disgyblion y cyngor ysgol sydd wedi dewis y lliwiau ar gyfer y canopïau newydd.

Rydym yn dymuno'n dda i chi gyda'ch datblygiadau yn y dyfodol. Diolch unwaith eto am y croeso cynnes ac am eich holl help i gynllunio a threfnu ein hymweliad

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf y ganolfan a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6607011

Yn gywir

**Dyfrig Ellis**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol